**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd NWR 02-03 (min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 7 Mawrth 2003 |
| **Amser:** | 10.00am tan 12.50pm |
| **Lleoliad:** | Canolfan Hamdden Arfon, Caernarfon |

**Yn bresennol**

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Peter Rogers, Cadeirydd | Gogledd Cymru |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Alison Halford | Delyn |
| Gareth Jones | Conwy |
| Ieuan Wyn Jones | Ynys Môn |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| John Marek | Wrecsam |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |

*Hefyd yn bresennol*

| | |
|---|---|
| Jonathan Melsom (eitem 3) | Awdurdod Rheilffyrdd Strategol |
| David Smith (eitem 3) | Awdurdod Rheilffyrdd Strategol |
| Denzil Jones (eitem 3) | Pennaeth Is-adran Polisi Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru |

*Yr Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a datgan buddiannau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor, y swyddogion ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law oddi wrth Ann Jones, David Ian Jones, Alun Pugh, Karen Sinclair a Dafydd Elis-Thomas.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 31 Ionawr 2003**

2. NWR 01-03 (min)

2.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr.

2.2 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd ar ôl y cyfarfod ac wedi gofyn iddi fanteisio ar y cyfle i ddefnyddio'r adolygiad presennol o drefniadau ariannu llifogydd a threfniadau gweinyddu er mwyn datblygu dull a 'wnaed yng Nghymru'. Roedd y Prif Weinidog hefyd wedi dilyn y camau a oedd yn deillio o'i sesiwn holi ac ateb.

**Eitem 3: Gwasanaethau rheilffordd yn y Gogledd**

3.1 Gwahoddwyd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (SRA) i roi amlinelliad o brif elfennau ei Gynllun Strategol ar gyfer 2003 a materion eraill sy'n berthnasol i Ogledd Cymru. Roedd Aelodau'r Pwyllgor wedi cwrdd yn flaenorol â'r SRA a Virgin a chyda'r ceiswyr ar gyfer masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Roedd wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd yn nodi dyheadau'r Pwyllgor o ran gwasanaethau rheilffyrdd.

3.2 Dyma beth ddywedodd Jonathan Melsom yn ei gyflwyniad:

- Mae'r SRA yn parhau i ymrwymo i nodau Cynllun Strategol 2002 ar gyfer cynnydd

yng nghludiant teithwyr a llwythau, ac ar gyfer lleihau gorlenwi. Roedd graddau'r cynnydd yn dibynnu ar mynd i'r afael â chostau'r diwydiant;

- Er bod yr arian sy'n cael ei wario ar y rheilffyrdd yn parhau i gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, roedd llai o gyllideb gan yr SRA ar gyfer 2003-04. Roedd hyn wedi golygu gwneud penderfyniadau anodd o ran y trefniadau grantiau dewisol ac wedi arwain at gyfyngu ar sgôp y prosiectau mawr;

- Byddai angen cyfiawnhau cynnydd yn y gyllideb a byddai angen i'r SRA ddatblygu achos cadarn ar ran y Rheilffyrdd mewn trafodaethau â Gweinidogion;

- Roedd masnachfraint Cymru a'r Gororau yn dal i fod ar y trywydd iawn ar gyfer mis Hydref 2003. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr roi enghreifftiau o effaith cwtogi'r cymorthdaliadau, ond roedd yr SRA hefyd wedi cael prisiau ar gyfer gwelliannau. Roedd hi'n rhy gynnar i roi sylwadau ar effaith fanwl cynigion o'r fath ond roedd yr SRA yn cydnabod pwysigrwydd rheilffyrdd mewn cymunedau gwledig;

- Roedd yr SRA yn nodi ac yn deall y pryderon ynghylch gorsafoedd yn y Gogledd - byddai disgwyl i'r rhai sy'n ennill y fasnachfraint fynd i'r afael â'r broblem hon. Nodwyd hefyd gyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch darparu cyllid i gynlluniau yn y De ac ymrwymiad i wneud yr un peth yn y Gogledd ar ôl trosglwyddo'r gorsafoedd i'r gweithredydd newydd;

- Roedd yr SRA yn cydnabod y galw am reilffyrdd fel y dangoswyd gan y twf ar arfordir y Gogledd, y cynnydd sylweddol yn y misoedd diwethaf ar lwybr Caer - Amwythig, a'r cynnydd o 40% yn nifer y teithwyr yn Wrecsam;

- Cadarnhaodd yr SRA fod y Cynlluniau ar gyfer gwasanaethau Virgin i'r Gogledd yn parhau i gael eu hystyried, ond nad oedd hi'n bosibl ychwanegu unrhyw beth arall ar yr adeg hon.

3.3 Canolbwyntiodd trafodaeth yr Aelodau ar:

- Galwadau i'r Cynulliad gael pwerau i gyfarwyddo'r SRA ac i Gymru gael mwy o gynrychiolaeth ar yr SRA.

- 'Statws Sinderela' gwasanaethau rheilffyrdd yn y Gogledd. Roedd gofyn gwireddu'r addewid i wella gwasanaethau rheilffyrdd yn y Gogledd, ac yn arbennig o ran y gwasanaethau i Lundain a'r De. Roedd yr SRA yn gweithio ar

welliannau rhwng Caergybi-Caerdydd a Llundain, ond roedd problemau'n codi oherwydd prinder trenau. Roedd yn rhaid i'r SRA integreiddio anghenion amrywiaeth o ran-ddeiliaid, fel prif linell Arfordir y Gorllewin. Bydd amserlen ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi yn nhymor yr haf 2004.

- Galwadau i Gymru gael cyfran o arian trwy fformiwla Barnett er mwyn cyllido'r rheilffyrdd. Roedd pryderon ynghylch diffyg tryloywder o ran lefel y cymorthdaliadau ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru, yn arbennig yn achos masnachfraint Cymru a'r Gororau. Esboniodd yr SRA na ellid cadarnhau'r ffigur hwn oherwydd cyfrinachedd masnachol ac oherwydd nad oedd cyfrifon cyfun yn bodoli ar gyfer elfennau Cymreig y ddwy fasnachfraint bresennol a fydd yn uno i greu Cymru a'r Gororau.

- Pryder bod arian yn cael ei wario yn Ne Cymru ac yn Ne-ddwyrain Lloegr yn hytrach na Gogledd Cymru. Dywedodd yr SRA fod teithwyr Cymru yn elwa o'r arian a wariwyd ar wasanaethau trên yn Lloegr, ond roedd yr Aelodau o'r farn bod hyn yn adlewyrchu blaenoriaethau Lloegr, ac nid Cymru.

- Pryder bod yr SRA yn gwahodd ymgeiswyr ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau i ddangos y gwasanaethau y gellid eu darparu gyda gostyngiad o 10-20% mewn cymhorthdal, ynghyd â chynigion ar gyfer gwelliannau.

- Angen mynd i'r afael â materion diogelwch, yn arbennig lle mae'r heol yn croesi'r rheilffordd.

- Cefnogaeth ar gyfer trydaneiddio llinell y Gogledd, y gellid ei ariannu trwy Amcan 1 o bosib. Dywedodd yr SRA eu bod yn edrych ar ddewisiadau ar gyfer capasiti yn y dyfodol. Byddai Denzil Jones yn rhoi gwybodaeth i Gareth Jones ar y sefyllfa o ran cael mwy o le ar y cynllun trydaneiddio ar Gynllun Rheilffyrdd A55 Penmaenbach er mwyn trydaneiddio yn y dyfodol.

5. Dywedodd y Cadeirydd wrth bawb yn y cyfarfod fod trigolion Yr Wyddgrug a Bae Cinmel wedi ysgrifennu at y Pwyllgor yn amlinellu eu pryderon ynghylch y gwasanaethau trên. Byddai'n trafod eu pryderon gyda'r Gweinidog.
6. Cododd aelodau o'r gynulleidfa y pwyntiau canlynol:

- Dywedodd y Cyngh. W J Williams, TAITH, na chyflawnwyd y gwelliannau i wasanaethau trên rhwng y Gogledd a Lloegr, er enghraifft saith trên super voyager Virgin y dydd. Roedd Gogledd Cymru yn cael 'gwasanaeth Sinderela', ac roedd cynllun deng mlynedd Llywodraeth y DU yn canolbwyntio ar wella

gwasanaethau yn Lloegr - er enghraifft prif linell Arfordir y Gorllewin. Cytunodd y Cyngh. Mathews, Cyngor Sir y Fflint a TAITH, bod y gwasanaethau yn y Gogledd wedi gwaethygu gan fod yr SRA yn targedu adnoddau yn Ne-ddwyrain Lloegr. Roedd yr SRA yn cydnabod y rhwystredigaeth i'r rhan ddeiliaid wrth i gwmnïau gweithredu trenau wneud addewidion nad oeddent yn gallu eu gwireddu.

- Gofynnodd Alun Griffith, Cyngor y Deillion Caerdydd, a oedd unrhyw gamau yn cael eu cymryd i fodloni anghenion y rheini â nam ar eu golwg a theithwyr anabl eraill. Dywedodd Barry Meade, gr•p Mynediad Dinbych, nad oedd mynediad i'r anabl yn foddhaol ac mewn rhai achosion roedd teithwyr anabl wedi cael eu cludo mewn tacsi i orsafoedd eraill a oedd yn gallu darparu mynediad i'r anabl. Roedd yr holl gwmnïau rheilffyrdd wedi cael canllawiau ar ddarparu gwasanaethau i deithwyr anabl. Serch hynny, roedd yr SRA yn cydnabod bod angen gwelliannau ar draws y rhwydwaith.

- Gofynnodd y Cyngh. June Marshall pam nad oedd cyllid Amcan 1 yn cael ei ddefnyddio'n fwy at ddibenion prosiectau trafnidiaeth. Roedd Denzil Jones o Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod ei bod hi'n siomedig os safbwynt trafnidiaeth mai dim ond £50 miliwn o gyllid Amcan 1 a ddyrannwyd at ddibenion trafnidiaeth. Roedd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi nodi prosiectau a oedd yn cael eu prosesu. Byddai angen arian cyfatebol pe byddent yn dod o hyd i arian ychwanegol.

- Roedd Owen Prosser, Symudiad Adfer y Rheilffyrdd, yn cefnogi'r galwadau i'r Cynulliad gael y cyfrifoldeb am reoli materion rheilffyrdd yng Nghymru. Cytunodd y Cyngh. Carwyn Jones o Gyngor Llangefni, sydd hefyd yn ddarpar Ymgeisydd Llafur ar gyfer y Cynulliad.

- Er gwaethaf yr addewidion, nid oedd trenau'n aros rhwng gwasanaethau yn Sir y Fflint, meddai Nigel Jones, Clerc Cyngor Tref y Fflint.

3.7 Gofynnodd y Cadeirydd i'r SRA ystyried y pwyntiau a godwyd gan y gynulleidfa. Byddai hefyd yn ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd i ddod â'r mater i'w sylw.

**Eitem 4: Adolygiad o waith y pwyllgor**

1. Rhoddodd Gareth Jones ac Eleanor Burnham grynodeb o waith y Pwyllgor yn ystod eu hamser fel Cadeiryddion y Pwyllgor yn 1999-2000 a 2001-2002 yn olynol. Daeth ymddiheuriadau i law gan Ann Jones, ail Gadeirydd y Pwyllgor, a rhoddodd Alison Halford grynodeb o waith y Pwyllgor yn ystod 2000-2001. Rhoddodd Peter Rogers, y Cadeirydd presennol, grynodeb o waith y Pwyllgor ers mis Gorffennaf 2002.

4.2 Dywedodd Janet Ryder ei bod yn gwerthfawrogi'r gwaith craffu a wnaed ar weithgareddau rhanbarthol cyrff cenedlaethol a'r cyfle i'r Aelodau a'r cyhoedd holi'r Prif Weinidog. Awgrymodd y gallai'r pwyllgor olynol edrych ar y newidiadau i Wasanaeth Iechyd Gwladol Cymru ac yn benodol ar y mater o greu Byrddau Iechyd Lleol newydd yn y rhanbarth.

4.3 Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r cyhoedd leisio'u barn ar waith y Pwyllgor a chynnig awgrymiadau i'r pwyllgor newydd a fydd yn ei olynu ar ôl yr etholiad. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Dywedodd Charlotte Williams, Prifysgol Cymru Bangor, mai ychydig o amser oedd ar gael yn y cyfarfod i'r cyhoedd ddweud eu dweud, ac awgrymodd y dylai'r gynulleidfa gymryd mwy o ran. Er mwyn cyflawni hyn roedd angen i'r unigolion fod yn gryf yn emosiynol ac fe allai fod yn niweidiol pe na byddai eu cyfraniadau yn cael cydnabyddiaeth. Roedd 'jargon' y cyflwyniadau yn annealladwy ac nid oedd fformat na phynciau'r cyfarfodydd o ddiddordeb i bobl ifanc. Awgrymodd y dylai'r adborth ganolbwyntio ar ganlyniadau ac effaith camau a oedd yn deillio o gyfarfodydd blaenorol.

- Roedd Eleri Thomas, Cronfa Achub y Plant, Sasha Huws, Pena Davies, Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd ac aelodau eraill o'r gynulleidfa yn cefnogi'r galw am gael mwy o bobl ifanc i gymryd rhan yng ngwaith y Pwyllgor ac ym maes gwleidyddiaeth yn gyffredinol. Cynigodd Eleri Thomas weithio gyda'r pwyllgor olynol i geisio cynnwys pobl ifanc yn eu gwaith, er enghraifft trwy gael cyfarfod penodol i drafod dyfodol pobl ifanc yn y Gogledd, neu drwy wahodd plant i roi cyflwyniadau mewn cyfarfodydd.

- Awgrymodd Gareth Jones, Cymdeithas Prifathrawon Sir y Fflint, y dylai'r pwyllgor olynol ystyried cyllid addysg ac y dylai cynrychiolydd ELWa fod yn bresennol i ateb cwestiynau.

- Gofynnodd Lucy Owen, disgybl yn Ysgol Tryfan, Bangor, a fyddai ELWa yn

parhau i ariannu cyrsiau penodol a gynhelir mewn ysgolion yn hytrach na'r colegau addysg uwch. **Byddai'r Cadeirydd yn ceisio cyngor y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol oes ac yn rhoi ymateb ysgrifenedig.**

- Roedd Owen Prosser o'r Symudiad Adfer y Rheilffyrdd o'r farn bod y Pwyllgorau Rhanbarth yn gyferbyniad braf i wleidyddiaeth draddodiadol.

- Croesawodd y Cyngh. Ivor Roberts, Cyngor Sir y Fflint, y Pwyllgorau Rhanbarth a'r cyfle i siarad mewn cyfarfodydd, ond roedd o'r farn y gellid gwella'r adborth. Roedd yn gwerthfawrogi'r cyfle i wrando ar Aelodau'r Cynulliad, ond teimlai ei bod hi'n bwysig iddynt fod yn bresennol gydol y cyfarfod. Cytunodd y Cyngh. Meurig Lloyd Davies o Gyngor Sir Ddinbych. Galwodd am fwy o amser i'r cyhoedd holi Aelodau'r Pwyllgor ar ystod o bynciau. Awgrymodd hefyd fod y Cynulliad yn ei gyfanrwydd yn cwrdd yng Ngogledd Cymru unwaith y flwyddyn.

- Awgrymodd aelod o'r gynulleidfa y gellid sefydlu 'gr•p cyfeirio' i helpu i lunio rhaglen waith y pwyllgor olynol.

4.4 Cytunodd yr Aelodau â'r angen i gael y cyhoedd, a phobl ifanc yn benodol, i gymryd mwy o ran yng ngwaith y Pwyllgor. Serch hynny, gwnaethant awgrymu y dylid cael cydbwysedd rhwng gwaith craffu'r Pwyllgor a'i rôl fel hwylysydd trafodaethau'r cyhoedd.

4.5 Diolchodd y Cadeirydd i'r gynulleidfa am eu hadborth adeiladol, a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r pwyllgor olynol ar ôl yr etholiad. Talodd deyrnged i Dafydd Wigley, Alison Halford a Tom Middlehurst a oedd yn ymddeol o'r Cynulliad adeg yr etholiad ym mis Mai.

**Eitem 5: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

5.1 Dyma gyfarfod olaf y Pwyllgor yn ystod y Cynulliad presennol. Byddai Pwyllgorau Rhanbarth yn cael eu sefydlu ar ôl yr etholiad a byddai manylion eu cyfarfodydd cyntaf yn cael eu hysbysebu maes o law.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

Mawrth 2003